

# Negeseuon allweddol o ymchwil ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant: Comisiynu gwasanaethau gofal iechyd

Nicola Sharp-Jeffs, Maddy Coy a Liz Kelly

Mawrth 2017

Mae'r papur briffio hwn ar gyfer comisiynwyr gwasanaethau iechyd. Mae'n dwyn ynghyd negeseuon allweddol o ymchwil ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â chanllawiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol [[Dolenni i'r Canllawiau Saesneg](#) a'r [Canllawiau Cymraeg](#)].

## Negeseuon allweddol

- Gall camfanteisio rhywiol ddigwydd i bobl ifanc o bob cefndir. Er mai merched ifanc yw'r rhan fwyaf sy'n dioddef, mae bechgyn a dynion ifanc hefyd yn profi camfanteisio.
- Bydd pobl ifanc sy'n dioddef camfanteisio rhywiol yn defnyddio ystod eang o ofal iechyd mewn gwahanol leoliadau, gan gynnwys iechyd rhywiol, adrannau Damweiniau ac Achosion Brys (A&E), canolfannau galw i mewn, meddygon teulu, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gwasanaethau ar gyfer hunan niweidio a defnyddio cyffuriau ac alcohol.
- Dylai fod gan bobl ifanc sydd wedi profi camfanteisio rhywiol a rhai sydd mewn perygl o'i ddioddef fynediad rhwydd i wasanaethau ar hyd llwybrau gofal iechyd lle mae'r angen yn codi.
- Gall comisiynwyr gynnal archwiliad o'r gwasanaethau sydd ar gael i wirio a yw pwyntiau o'r fath yn bodoli ac a ydynt yn ddigonol i ateb y galw.
- Bydd asesiadau lleol o raddfa, tystiolaeth a gasglwyd ar gyfer Cyd-asesiadau o Angen a phroffiliau o broblemau a ddatblygwyd gan yr heddlu yn rhoi darlun i Gomisiynwyr o lefel y cymorth y mae angen ei ddarparu.
- Gall comisiynwyr gyflwyno mesurau a fydd yn annog gweithwyr iechyd proffesiynol i edrych ar bobl ifanc mewn ffordd gyfannol, ac i weld y tu hwnt i'r broblem iechyd a gyflwynir.
- Gall comisiynwyr chwarae rôl hollbwysig i sicrhau bod safonau gofynnol yn cael eu cyflawni trwy neilltuo adnoddau digonol a hyrwyddo arferion da.
- Gall buddsoddi mewn gwasanaethau arbenigol arwain at fuddiannau ariannol.
- Gall gweithwyr iechyd proffesiynol gyfrannu at waith amlasiantaethol i amddiffyn pobl ifanc, i ganfod patrymau mewn camdriniaeth ac amharu ar gyflawnwyr. Gall comisiynwyr chwarae rôl i gynorthwyo staff iechyd i gydbwyso cyfrinachedd a diogelu trwy'r system hon.
- Gall comisiynwyr gwasanaethau iechyd chwarae rôl eang mewn ataliaeth ac ymyrraeth gynnar: o helpu i ganfod CSE yn gynnar trwy wasanaethau cyffredinol i gyfleoedd wedi'u targedu.

## Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

'Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn fath o gam-drin plant lle mae unigolyn neu grŵp yn cymryd mantais ar anghydbwysedd mewn pŵer i orfodi, i ddylanwadu neu i dwyllo plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol (a) yn gyfnewid am rywbeth y mae'r dioddefwr ei angen neu ei eisiau a/neu (b) am fantais ariannol neu statws uwch y cyflawnwr neu'r hwylusydd.'

([Diffiniad newydd Lloegr 2017](#))

Nid oes dim ond un ffordd o gyflawni CSE (Child Exploitation and Online Protection Centre, 2011; Berelowitz et al. 2012; Gohir, 2013; Research in Practice and University of Greenwich, 2015). Mae meithrin perthynas i bwrpas rhyw'n gyffredin mewn rhai ffurfiau o CSE, ond nid yw'n bresennol bob tro (Beckett, 2011; Melrose, 2013). Gall gorgyffwrdd ddigwydd rhwng camfanteisio ar-lein ac all-lein (Fox a Kalkan, 2016). Os yw'n ymddangos bod plant a phobl ifanc yn cydweithredu ni ellir cymryd hynny fel cydsyniad: maent o dan oed yng ngolwg y gyfraith ac yn agored i sawl math o orfodaeth a rheolaeth.

Mae cam-drin pŵer o'r fath yn debyg i'r hyn a welir mewn trais domestig a gall olygu nad yw plant a phobl ifanc yn gweld bod yr hyn sy'n digwydd iddynt yn fath o gam-drin.

Er bod tystiolaeth yr holl ymchwil hyd yma'n dangos mai merched a menywod ifanc yw mwyafrif y dioddefwyr, gall camfanteisio ddigwydd i fechgyn a dynion ifanc hefyd. Yr oedran cyfartalog pan fydd pryderon yn amlygu eu hunain gyntaf yw 12 i 15 oed, er bod astudiaethau diweddar yn dangos nifer cynyddol o atgyfeiriadau ymhlith rhai 8 i 11 oed, yn enwedig yn achos camfanteisio ar-lein (Yr Adran Addysg, 2017). Gwyddom lai am y camfanteisio ar rai o Gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) a Chymunedau Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) (Ward a Patel, 2006; Gohir, 2013; Coy, 2016a; Sharp, 2013; Fox, 2016).

Nid oes y fath beth â dioddefwr 'nodweddiadol'. Wedi dweud hynny, gall rhai pobl ifanc fod yn fwy agored nag eraill, ac amlygwyd ystod o ddangosyddion y dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol ohonynt. Mae'r rhain yn cynnwys: cam-drin blaenorol yn y teulu; amddifadedd; digartrefedd; camddefnyddio sylweddau; anabled; bod mewn gofal; rhedeg i ffwrdd /mynd ar goll; cysylltiadau â gangiau (Beckett et al. 2013; Brown et al. 2016; Coy, 2009; Franklin, Raws a Smeaton, 2015; Harris a Robinson, 2007; Klatt et al. 2014; Jago et al. 2011; Smeaton, 2013). Ni wyddys a yw'r rhain yn berthnasol hefyd yn achos pobl ifanc pan fydd camfanteisio'n dechrau neu'n digwydd yn gyfan gwbl ar-lein, er ei bod yn ymddangos bod rhai ffactorau'n bresennol yn y ddau gyd-destun (Whittle et al. 2013). Nid yw dangosyddion yn dystiolaeth bod camfanteisio rhywiol wedi digwydd. Yr unig beth a awgrymir yw bod angen i weithwyr proffesiynol ddefnyddio'u chwilfrydedd proffesiynol a'u crebwyll i edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn achos pob person ifanc.

## Diwallu anghenion gofal iechyd

Gall pobl ifanc sy'n profi camfanteisio rhywiol ddefnyddio ystod eang o wasanaethau gofal iechyd mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol, ar gyfer anghenion sy'n cynnwys:

- iechyd rhywiol (Kirtley, 2013; Nelson, 2016) e.e. heintiadau a drosglwyddir yn rhywiol; profion am heintiau'r llwybr wrinol; atal cenhedlu (brys); profion beichiogrwydd; terfynu beichiogrwydd; gwaedu trwm; a phoenau yn yr abdomen (Berelowitz et al 2012; Yr Adran Iechyd, 2014; Jay, 2014; Myers a Carmi, 2016).
- anafiadau corfforol, gan gynnwys rhai sy'n ganlyniad i hunan niweidio ac anafu (Berelowitz et al. 2012; Kirtley, 2013; Marshall, 2014).
- Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol (Berelowitz et al 2012; Child Exploitation and Online Protection Centre, 2011; Coy, 2009; Yr Adran Iechyd, 2014; Jay, 2014; McClelland, 2011).
- effeithiau seicolegol, gan gynnwys gorbryder, iselder, ôl-fflachiadau, straen wedi trawma a seicosis (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, 2012; Marshall, 2014).

Dylai staff gofal iechyd ym mhob lleoliad dybio bod camfanteisio rhywiol yn digwydd yn eu hardal (Beckett a Schubotz, 2014; Berelowitz et al. 2012; Hughes a Thomas, 2016; gweler

hefyd yr Office for Standards in Education, Children's Services and Skills 2016) a chynllunio ar sail hynny. Dylai cynlluniau i roi sylw i gamfanteisio rhywiol gydnabod bod achosion hysbys o CSE yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel o'r broblem gan fod diffyg hysbysu o'r broblem a diffyg ymwybyddiaeth o'r broblem (Public Health England, 2017).

## Asesu'r angen a dulliau cynllunio

Bydd angen mynediad rhwydd at wasanaethau iechyd ar bobl ifanc sy'n profi camfanteisio rhywiol ar bob pwynt ar hyd llwybrau gofal. Gall comisiynwyr gynnal archwiliad o'r gwasanaethau sydd ar gael i wirio a yw pwyntiau o'r fath yn bodoli ac a ydynt yn ddigonol i ateb y galw. Er enghraifft, mae ymchwiliadau i gamfanteisio rhywiol wedi dangos bod y bobl ifanc hyn cael yn anhawster cael mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Ifanc a'r Glasoed (CAMHS), wedi canfod rhwystrau fel adnoddau annigonol, meini prawf mynediad caeth ac amseroedd aros hir i gael asesiad a thriniaeth (Allnock et al. 2015; Martin et al. 2014; Goddard et al., 2015).

Bydd asesiadau lleol o raddfa, tystiolaeth a gasglwyd ar gyfer Cyd-asesiadau o Angen a phroffiliau o broblemau a ddatblygwyd gan yr heddlu yn rhoi darlun i Gomisiynwyr o lefel y cymorth y mae angen ei ddarparu. Mae gwybodaeth am asiantaethau sy'n gweithio â phobl ifanc sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol sy'n seiliedig ar bractis (gan gynnwys Canolfannau Argyfwng Trais a Chanolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol) yn adnodd gwerthfawr arall. Gall comisiynwyr hefyd wahodd pobl ifanc â phrofiad o wasanaethau CSE i sgysiau i ganfod sut mae'r ddarpariaeth bresennol yn diwallu eu hanghenion (Office for Standards in Education, Children's Services and Skills, 2016; Webb a Holmes, 2015).

Os nad oes digon o adnoddau'n lleol i ddarparu cymorth yna gall comisiynwyr ystyried cydgomisiynu ar draws ardaloedd daearyddol (Allnock et al. 2015). Un opsiwn yw dull integredig sy'n cyfuno trefniadau cydgomisiynu rhwng yr heddlu, gofal cymdeithasol ac addysg. Mantais hyn yw y bydd modd trefnu gwasanaethau iechyd mewn ffordd sy'n ymateb yn effeithlon i bobl ifanc ac yn rhoi sylw i'w hanghenion lluosog (Nelson, 2016). Bydd cydweithredu trwy gyfuno cyllidebau'n helpu cynllunio a gall arwain at lwybrau atgyfeirio cliriach (Research in Practice, 2015). Pan fydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn cydweithio'n fwy clos â'r heddlu, er enghraifft, gall pobl ifanc gael gwell mynediad at therapi cyn treial yn ogystal â gwasanaethau therapiwtig yn ystod achosion llys ac wedyn (Beckett a Warrington, 2015).

## Sicrhau bod anghenion dioddefwyr yn cael eu diwallu

Mae dulliau traddodiadol o amddiffyn plant yn cael eu hymestyn gan ddynmeg gymhleth camfanteisio rhywiol a'r ystod eang o anghenion sydd gan bobl ifanc sydd wedi profi camfanteisio rhywiol (Pearce, 2014). Efallai na fydd pobl ifanc yn gweld eu hunain fel dioddefwyr ac yn credu eu bod mewn cariad (Pearce, 2009). Mae camfanteisio rhywiol yn broses, a gall canfod ffordd allan i bobl ifanc fod yn debyg i helpu dioddefwyr trais domestig: canolbwyntio ar gryfderau, asesu risg ac ymestyn y gofod i weithredu - proses o 'ddiogelu a gynhelir' (Pearce, 2009).

Mae cymorth dwys yn rhoi ymdeimlad i bobl ifanc o'r sicrwydd sydd ei angen arnynt ac mae'n gweithredu fel gwrthbwynt i 'dynfa' y camfanteiswyr (Coy, 2009; Gilligan, 2016; Shuker, 2013).

Gall comisiynwyr gyflwyno mesurau a fydd yn annog gweithwyr iechyd proffesiynol i edrych ar y person ifanc mewn ffordd gyfannol ac i weld y tu hwnt i'r broblem glinigol sy'n cael ei chyflwyno (Research in Practice, 2015). Mae gan bob aelod o staff gofal iechyd rôl i'w chwarae i ganfod arwyddion o gamfanteisio rhywiol. Felly, gweithgarwch allweddol yw adolygu argaeledd hyfforddiant arbenigol i ymarferwyr rheng flaen a sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu'n rheolaidd

a pharhaus, Mae dulliau strategol lleol o ddiogelu plant a gwasanaethau arbenigol lleol sy'n gweithio â phobl ifanc sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol yn aml yn adnodd rhagorol lle gellir comisiynu hyfforddiant, oherwydd eu profiad a'u harbenigedd.

Gall comisiynwyr hefyd chwarae rôl allweddol i sicrhau bod safonau gofynnol yn cael eu cyflawni trwy wneud yn siŵr bod adnoddau digonol ar gael a bod arferion da'n cael eu hyrwyddo. Gwelwyd fod adnoddau ychwanegol mewn arweinyddiaeth ddiogelu mewn gofal sylfaenol, iechyd cymunedol a'r sector ysbytai yn help effeithiol i ddatblygu hyder ac arbenigedd proffesiynol rheng flaen (Office for Standards in Education, Children's Services and Skills, 2016). Mae gwaith ar gamfanteisio rhywiol sy'n seiliedig ar berthnasoedd yn cael effaith emosiynol fawr, felly mae angen adnoddau hefyd i sicrhau bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd.

Ystyriaeth bwysig arall i Gomisiynwyr yw a yw gwasanaethau camfanteisio rhywiol plant arbenigol wedi'u cynnwys mewn llwybrau atgyfeirio. Mae timau arbenigol yn y sector gwirfoddol neu statudol yn cael eu henwi'n gyson fel rhai sy'n gallu gweithio am gyfnodau hwy â phobl ifanc (Gilligan, 2016; Pearce, 2014). Maent hefyd yn gallu gwneud gwaith allgymorth rhagweithiol, gan gynnwys galwadau ffôn a negeseuon testun dyddiol, ymweld, a ffyrdd eraill o gadw cysylltiad, hyd yn oed pan fydd y cymorth hwn i ddechrau, neu droeon, yn cael ei wrthod (Coy, 2016b; Oxford Brookes University, 2015; Warrington, 2013).

Mae hyn yn dangos bod angen i hyd contractau ar gyfer gwasanaethau arbenigol fod yn ddigon hir er mwyn gallu meithrin perthynas â phobl ifanc sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth. Er bod comisiynu gwasanaethau tymor hir yn gallu ymddangos yn gostus, mae ailatgyfeirio ac argyfyngau parhaus yn costio mwy (Webb a Holmes, 2015). Gall buddsoddi mewn gwasanaethau arbenigol arwain at fuddiannau ariannol gydag un dadansoddiad yn dangos arbedion posibl o £12 am bob £1 a fuddsoddir (Barnardo's, 2011).

## Gweithio amlasiantaethol

Ar lefel strategol, mae angen i waith sy'n rhoi sylw i gamfanteisio'n rhywiol ar bobl ifanc gysylltu â mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol (CSA). Mae hyn oherwydd bod gan lawer o bobl ifanc sy'n dioddef camfanteisio rhywiol hanes o fathau eraill o gam-drin rhywiol (Coy, 2009; Hickie, 2016) a all ddwysáu pryderon iechyd cyfredol. Mae angen gwneud cysylltiadau hefyd ag ymagweddau lleol tuag at drais yn erbyn menywod a merched (Brayley a Cockbain, 2014; Coy, 2016b) yn ogystal â materion fel mynd ar goll, troseddu ieuenctid a cham-drin sylweddau. Mae gweithio amlasiantaethol felly'n bwysig a gall Comisiynwyr annog hyn.

Mae ymchwiliadau i CSE wedi dangos amharodrwydd i rannu gwybodaeth, oherwydd y pwyslais pwysig ar gyfrinachedd a meithrin ymddiriedaeth plant a phobl ifanc (Barnardo's 2012; Berelowitz et al. 2015; Champion, 2014; Dodsworth a Larsson, 2014; Pearce, 2014). Un o ganlyniadau methiant i gysylltu gwybodaeth yw nad yw gwybodaeth bob amser yn cael ei rhannu mewn ffyrdd a fyddai'n galluogi gwasanaethau iechyd i gyfrannu at ganfod ac amharu ar gyflawnwyr (Jago et al. 2011) gan gynnwys pan fo'r cyflawnwr wedi'i gysylltu â mwy nag un achos. Fodd bynnag, nid yw rhannu gwybodaeth mewn cyd-destunau amlasiantaethol yn ymyriad ynddo'i hun; rhaid iddo fod wedi'i gysylltu â gweithredu amddiffynnol a/neu ataliol. Gall Comisiynwyr chwarae rôl i gynorthwyo staff i gael cydbwysedd rhwng cyfrinachedd a diogelu (Yr Adran Iechyd, 2014).

Er bod yr holl ymchwil hyd yma'n dangos bod mwyafrif y troseddwr yn ddynion, gall camfanteisio rhywiol hefyd gynnwys cymheiriaid mewn ffyrdd cymhleth - fel hwyluswyr,

camdrinwyr neu dystion (Firmin, 2011; Beckett et al. 2013). Gall gwybodaeth arall ddefnyddiol y gellir ei chofnodi a'i rhannu gan weithwyr iechyd proffesiynol gynnwys lleoliadau lle mae camfanteisio rhywiol yn digwydd e.e. partïon mewn tai.

## Atal ac ymyrraeth gynnar

Mae gwaith atal ac ymyrryd cynnar yn elfen bwysig arall mewn dulliau strategol i fynd i'r afael â chamfanteisio rhywiol. Gall comisiynwyr gwasanaethau iechyd chwarae rôl amrywiol; o hyrwyddo canfod CSE yn gynnar i wasanaethau cyffredinol fel nyrsys ysgol ac ymwelwyr iechyd i gyfleoedd wedi'u targedu fel cysylltu â phartneriaid yn yr awdurdodau lleol fel trwyddedu i amharu ar gyflawnwyr (Public Health England, 2017).

Rôl arall yw arwain ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus sy'n cynnwys pobl ifanc, teuluoedd/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Gall codi ymwybyddiaeth arwain at gynnydd mewn gwybodaeth a hyder ynglŷn â sut i gadw pobl ifanc yn ddiogel (D'Arcy et al. 2015; Bovarnick a Scott, 2016). Bydd y rhain yn fwy effeithiol os yw'r negeseuon a'r deunyddiau wedi cael eu gwirio am synnwyr gyda phobl ifanc sydd wedi profi camfanteisio rhywiol. Mae rhaglenni a/neu ddeunyddiau sydd wedi'u hanelu at ddynion ifanc yn ymwneud â chydsyniad rhywiol ac edrych ar gyrrff merched ifanc fel gwrthrychau rhyw a safonau gwrywdod hefyd yn gynlluniau ataliol pwysig (End Violence Against Women Coalition, 2011). Gall comisiynwyr gwasanaethau iechyd hefyd hyrwyddo iechyd pobl ifanc mewn ysgolion a cholegau, gan eu helpu i gyflwyno Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (Public Health England, 2017). Dull arall fyddai hyfforddi a helpu pobl ifanc sydd wedi profi camfanteisio i fod yn 'eiriolwyr iechyd' ymhlith eu cymheiriaid ac i godi ymwybyddiaeth o effaith CSE ar iechyd (Hagell, 2013).

### Negeseuon allweddol o ymchwil ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant – hefyd ar gael

- Staff sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd
- Yr Heddlu
- Comisiynu gwasanaethau'r heddlu'n strategol
- Gweithwyr cymdeithasol
- Comisiynu gwasanaethau plant yn strategol
- Gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion
- Gweithio amlasiantaethol

## Cyfeiriadau

Allnock, D., Sneddon, H. ac Ackerley, E. (2015) *Mapping therapeutic services for sexual abuse in the UK in 2015* Luton: University of Bedfordshire, International Centre

Barnardo's (2011) *Reducing the risk, cutting the cost: An assessment of the potential savings from Barnardo's interventions for young people who have been sexually exploited* Barkingside: Barnardo's

Barnardo's (2012) *Cutting them free How is the UK progressing in protecting its children from sexual exploitation?* Barkingside: Barnardo's

Beckett, H. (2011) *Not a World Away: The Sexual Exploitation of Children and Young People in Northern Ireland* Belfast: Barnardo's

Beckett, H. a Schubotz, D. (2014) *Young people's self-reported experiences of sexual exploitation and sexual violence: a view from Northern Ireland* *Journal of Youth Studies* 17(4): 430-445

Beckett, H. gyda Brodie I., Factor F., Melrose M., Pearce J., Pitts J., Shuker L. a Warrington C. (2013) 'It's Wrong...But You Get Used to It': A Qualitative Study of Gang-associated Sexual Violence and Exploitation Luton: University of Bedfordshire

Beckett, H. a Warrington, C. (2015) *Making Justice Work: experiences of criminal justice for children and young people affected by sexual exploitation as victims and witnesses* Luton: University of Bedfordshire

Berelowitz, S., Firmin, C., Edwards, G. a Gulyurtlu, S. (2012) *"I thought I was the only one. The only one in the world" interim report* London: Office of the Children's Commissioner

Berelowitz, S., Ritchie, G., Edwards, G., Cabrita Gulyurtlu, S. S. a Clifton, J. (2015) *If it's not better, it's not the end - Inquiry into child sexual exploitation in gangs and groups: One year on* London: Office of the Children's Commissioner

Bovarnick, S. a Scott, S. (2016) *Child Sexual Exploitation Prevention Education: A Rapid Evidence Assessment* Luton: University of Bedfordshire

Brayley, H. a Cockbain, E. (2014) British Children Can Be Trafficked Too: Towards an Inclusive Definition of Internal Child Sex Trafficking *Child Abuse Review* 23: 171–184

Brayley, H., Cockbain, E. a Gibson, K. (2014) *Rapid evidence assessment – the sexual exploitation of boys and young men* Barkingside: University College London

Brown, S., Brady, G., Franklin, A., Bradley, L., Kerrigan, N. a Sealey, C. (2016) *Child Sexual Abuse and Exploitation: Understanding Risk and Vulnerability* Coventry: Coventry University

Champion, S. (2014) *Report of the Parliamentary inquiry into the effectiveness of legislation for tackling child sexual exploitation and trafficking within the UK* Barkingside: Barnardo's

Child Exploitation and Online Protection Centre (2011) *Scoping Report on Missing and Abducted Children* London: Child Exploitation and Online Protection Centre

Coy, M. (2009) 'Moved Around Like Bags of Rubbish Nobody Wants' How Multiple Placement Moves Can Make Young Women Vulnerable to Sexual Exploitation *Child Abuse Review* 18(4): 254-266

- Coy, M. (2016a) *'We don't get this at school: The Safe Choices Reaching Communities Project final evaluation report* London: CWASU
- Coy, M. (2016b) *Joining the dots on sexual exploitation of children and women: A way forward for UK policy responses* Critical Social Policy Cyhoeddwyd ar-lein 5ed Mai
- D'Arcy, K., Dhaliwal, S., Thomas, R. gyda Brodie, I. a Pearce, J. (2015) *Families and Communities Against Child Sexual Exploitation (FCASE) Final Evaluation Report* Luton: University of Bedfordshire, International Centre
- Yr Adran Addysg (2017) *Definition and a guide for practitioners, local leaders and decision makers working to protect children from child sexual exploitation* London: Yr Adran Addysg
- Yr Adran Iechyd (2014) *Health Working Group report on child sexual exploitation: an independent group chaired by the Department of Health focusing on: Improving the outcomes for children by promoting effective engagement of health services and staff* London: Yr Adran Iechyd
- Dodsworth, J. a Larsson, B. (2014) *An examination of the perspectives and experiences of police officers working with children and young people at risk of, or involved in, child sexual exploitation* Norwich: Centre for Research on Children and Families, University of East Anglia
- End Violence Against Women Coalition (2011) *A Different World is Possible: Promising Practices to Prevent Violence Against Women and Girls* London: End Violence Against Women Coalition
- Firmin, C. (2011) *This is it. This is my life...The Female Voice in Violence Project Final report* London: Race on the Agenda
- Fox, C. (2016) *'It's not on the radar' The hidden diversity of children and young people at risk of sexual exploitation in England* Barkingside: Barnardo's
- Fox, C. a Kalkan, G. (2016) *Barnardo's Survey on Online Grooming* Barkingside: Barnardo's
- Franklin, A., Raws, P. a Smeaton, E. (2015) *Unprotected, overprotected: meeting the needs of young people with learning disabilities who experience, or are at risk of, sexual exploitation* Barkingside: Barnardo's
- Gilligan, P. (2016) *Turning it around: what do young women say helps them to move on from child sexual exploitation?* *Child Abuse Review* 25(2): 115-127
- Goddard, A., Harewood, E. a Brennan, L. (2015) *Review of pathway following sexual assault for children and young people in London.* London: The Havens, Kings College Hospita
- Gohir, S. (2013) *Unheard voices: sexual exploitation of Asian girls and young women* London: Muslim Women's Network UK
- Hagell, A. (2013) *Be Healthy Evaluation* Luton: University of Bedfordshire/Association for Young People's Health
- Harris, J. a Robinson, B. (2007) *Tipping the Iceberg: A pan Sussex study of young people at risk of sexual exploitation and trafficking* Barkingside: Barnardo's
- Hickle, K. (2016) *A Trauma informed approach, child sexual exploitation and Related Vulnerabilities* Luton: University of Bedfordshire, International Centre
- Hughes, C. a Thomas, M. (2016) *You can trust me... Young people going missing and at risk of, or abused through, child sexual exploitation in North Wales* Barkingside: Barnardo's



- Ijadi-Maghsoodi, R., Todd, E. J. a Bath, E. P. (2014) Commercial Sexual Exploitation of Children and the Role of the Child Psychiatrist *Journal of the American Academy of Child and Adolescent Psychiatry* 53(8); 825-829
- Jago, S., Arocha, L., Brodie, I., Melrose, M., Pearce, J. a Warrington, C. (2011) *What's Going on to Safeguard Children and Young People from Sexual Exploitation? How Local Partnerships Respond to Child Sexual Exploitation* Luton: University of Bedfordshire
- Jay, A. (2014) *Independent Inquiry into Child Sexual Exploitation in Rotherham 1997–2013*. Ar gael ar-lein:  
[http://www.rotherham.gov.uk/downloads/file/1407/independent\\_inquiry\\_cse\\_in\\_rotherham](http://www.rotherham.gov.uk/downloads/file/1407/independent_inquiry_cse_in_rotherham)
- Kirtley, P. (2013) *“If you shine a light, you will probably find it”: report of a grass roots survey of health professionals with regard to their experiences in dealing with child sexual exploitation* Derby: National Working Group
- Klatt, T., Cavner, D. ac Egan, V. (2014) Rationalising predictors of child sexual exploitation and sex trading *Child Abuse Neglect* 38(2): 252-260
- Marshall, K. (2014) *Child sexual exploitation in Northern Ireland: Report of the Independent Inquiry* Belfast: Criminal Justice Inspection, Education and Training Inspectorate and Regulation and Quality Improvement Authority
- Martin, L., Brady, G., Kwhali, J., Brown, S. J., Crowe, S. a Matouskova, G. (2014) *Social workers' knowledge and confidence when working with cases of child sexual abuse: what are the issues and challenges?* London: National Society for the Prevention of Cruelty to Children
- McClelland G. T. (2011) *Meeting the health needs of young people involved in or vulnerable to sexual exploitation*. Bradford: University of Bradford
- Melrose, M. (2013) Young People and Sexual Exploitation: A Critical Discourse Analysis in Melrose, M. and Pearce, J. (eds.) *Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking* pp.9-22 Basingstoke: Palgrave Macmillan
- Myers, J. a Carmi, E. (2016) *The Brooke serious case review into child sexual exploitation: identifying the strengths and gaps in the multi-agency responses to child sexual exploitation in order to learn and improve* Bristol: Bristol Safeguarding Children Board
- Nelson, S. (2016) *Tackling Child Sexual Abuse: Radical Approaches to Prevention, Protection and Support* Bristol: Policy Press
- Office for Standards in Education, Children's Services and Skills (2016) *'Time to listen' – a joined up response to child sexual exploitation and missing children* London: Office for Standards in Education, Children's Services and Skills
- Oxford Brookes University (2015) *Supporting Children and Young People at Risk of Sexual Exploitation: Rapid Research Review* Hampshire: Hampshire County Council
- Pearce, J. (2009) *Young people and sexual exploitation: It isn't hidden, you just aren't looking* London: Routledge Falmer
- Pearce, J. (2014) 'What's Going On' to Safeguard Children and Young People from Child Sexual Exploitation: A Review of Local Safeguarding Children Boards' Work to Protect Children from Sexual Exploitation *Child Abuse Review* 23(3) 159:170

- Public Health England (2017) *Child sexual exploitation: how public health can support prevention and intervention* London: Public Health England
- Research in Practice (2015) *Working Effectively to Address Child Sexual Exploitation: An evidence scope* Totnes: Research in Practice
- Research in Practice and University of Greenwich (2015) *Working effectively to address Child Sexual Exploitation: A briefing* Totnes: Research in Practice
- Royal College of Psychiatrists (2012) *Royal College of Psychiatrists Briefing on child sexual exploitation* London: Royal College of Psychiatrists.
- Sharp, N. (2013) *Missing from discourse: South Asian young women and sexual exploitation in Melrose, M. and Pearce, J. (eds.) Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking* pp. 96-109 Basingstoke: Palgrave Macmillan
- Shuker, L. (2013) *Evaluation of Barnardo's Safe Accommodation Project for Sexually Exploited and Trafficked Young People* Luton: University of Bedfordshire
- Smeaton, E. (2013) *Running from Hate to What You Think is Love: The Relationship between Running Away and Child Sexual Exploitation* Barkingside: Barnardo's and Paradigm Research
- Ward, J. a Patel, N. (2006) Broadening the discussion on 'sexual exploitation': ethnicity, sexual exploitation and young people *Child Abuse Review* 15(5): 341-50
- Warrington, C. (2013) *Partners in Care? Sexually Exploited Young People's Inclusion and Exclusion from Decision Making about Safeguarding in Melrose, M. and Pearce, J. (eds.) Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking* pp. 110-124 Basingstoke: Palgrave Macmillan
- Webb, J. a Holmes, D. (2015) *Working effectively to address Child Sexual Exploitation: Evidence Scope* Totnes: Research in Practice
- Whittle, H. C., Hamilton-Giachritsis, C., Beech, A. a Collings, G. (2013) *A Review of young people's vulnerabilities to online grooming Aggression and Violent Behavior*, 18(1): 135-146

## **Y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol**

[www.csacentre.org.uk](http://www.csacentre.org.uk)

©Mawrth 2017